Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Awst 2010

Newidiadau arfaethedig i'r system gyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru	Cyfeiriadau newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru	Y diweddaraf am y strategaethau rhanbarthol	Graddau Sylfaen	Rheoli'r nifer o israddedigion amser-llawn	Cyllid ar gyfer gwyddoniaeth technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)
Llwyddiant ym myd busnes i brifysgolion Cymru	Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil	Y Cynllun Cymrodor-iaethau Addysgu Cenedlaethol	Yn gryno	Cyhoeddiadau diweddar	

Newidiadau arfaethedig i'r system gyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru

Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei llythyr cylch gwaith diwethaf i ni y dylem wneud defnydd mwy strategol o gyllid i sicrhau'r newidiadau a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, ei strategaeth a chynllun ar gyfer addysg uwch. Rydym felly wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n ffrydiau cyllid presennol, gan gynnwys sefydlu Cronfa Weithredu Strategol (CWS), i sicrhau bod modd cyflawni blaenoriaethau *Er Mwyn Ein Dyfodol* mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r cylchlythyr diweddar yn amlinellu'r egwyddorion a ystyriwn yn hanfodol i unrhyw system ariannu AU ac yn amlinellu'r ffordd rydym yn bwriadu datblygu'r Gronfa Gweithredu Strategol ymhellach i gynnwys ein holl gyllid, gan gynnwys cyfalaf. Yna mae'r cylchlythyr yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'n system ariannu i'w trefnu'n nes at y prif themâu yn ein Strategaeth Gorfforaethol a'r mesurau perfformiad sector a osodir oddi mewn iddi.

Ymysg y newidiadau a gynigir, er enghraifft, rydym yn ceisio safbwyntiau ar ddefnyddio canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr i lywio cyllid er mwyn helpu i wella profiad myfyrwyr. Rydym yn cynnig dyrannu mwy o gyllid i arloesi ac ymgysylltu ac rydym yn ceisio safbwyntiau ar ein cynigion i gynyddu trothwy'r cyfaint, a chyflwyno trothwy ansawdd, ar gyfer ariannu ymchwil (QR). Rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar ystod o opsiynau y gallwn eu cyflwyno i annog cyflawni newidiadau yn strwythur y sector, gan adlewyrchu mesur 11 yn ein Strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o ddyrannu cyllid mewn perthynas â maint y sefydliad,

addasu ein cyllid mewn ffyrdd eraill i gefnogi sefydliadau mwy neu neilltuo cyllid o'r sector a'i ailddyrannu ar sail cynlluniau sefydliadol boddhaol i gwrdd â'r mesur hwn.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am ein dull arfaethedig yn ein cylchlythyr ymgynghori, sy'n gofyn am ymatebion erbyn 6 Medi 2010.

➔ Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r system gyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru

Cyfeiriadau newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru

Cyfeiriadau newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru

Cyhoeddwyd ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer y tair blynedd nesaf ar ddiwedd Mehefin 2010. Mae'r Strategaeth yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer addysg uwch (AU) yng Nghymru hyd 2013, sy'n cynnwys:

- y dylai prifysgolion a cholegau addysg bellach weithio gyda'i gilydd mewn ffordd fwy integredig ar draws rhanbarthau Cymru er mwyn gwella darpariaeth i bob dysgwr sy'n gallu elwa ar AU.
- cynlluniau ar gyfer cyfundrefn AU yng Nghymru sy'n cyfrannu'n gryf at hybu cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog.
- gwell perfformiad ymchwil, ar ffurf mwy o ymchwil o safon ryngwladol a chysylltiadau cryfach â defnyddwyr a buddiolwyr eraill.
- llai o sefydliadau, sydd mewn sefyllfa well i fentro, i wrthsefyll ergydion, ac i barhau'n arloesol yn y tymor hir.

➔ Datganiad i'r wasg: Strategaeth gorfforaethol CCAUC

➔ Strategaeth gorfforaethol CCAUC 2010-2013

Y diweddaraf am y strategaethau rhanbarthol

Mae Cylchlythyr W10/16HE a gyhoeddwyd ar 28 Mai 2010 yn rhoi arweiniad ar lunio strategaethau rhanbarthol ar gyfer cynllunio a chyflwyno addysg uwch yng Nghymru. Gwahoddwyd y partneriaid ym mhob un o'r tri rhanbarth a nodir yn y cylchlythyr i gyflwyno un strategaeth.

Mae cylchlythyr mwy diweddar yn rhoi mwy o wybodaeth am y cymhellion ariannol sydd ar gael i wireddu'r strategaethau rhanbarthol, data am weithgareddau

rhanbarthol, a ffynonellau gwybodaeth ychwanegol i helpu'r partneriaid rhanbarthol i ddatblygu eu strategaethau.

Rydym wedi comisiynu ymgynghorwyr i helpu'r tri rhanbarth i ddatblygu eu strategaeth. O 19 Gorffennaf 2010, bydd Grŵp Francis ac OPM, fel rhan o Gonsortiwn Cyflawni 2020, yn: gweithio gydag arweinwyr rhanbarthol ar gynlluniau a fydd yn dod â buddion tymor-hir i Gymru; gweithio'n agos â rhanddeiliaid; cyfathrebu'n barhaus ar gynnydd, amserlenni, risgiau a chanlyniadau; a rhannu profiad ac arfer da.

➔ Strategaethau Rhanbarthol ar gyfer Cynllunio a Chyflwyno Addysg Uwch: Cyllid a Chymorth

Graddau Sylfaen

Mae graddau sylfaen yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau a gwybodaeth, a chyfunant astudio â dysgu yn y gweithle a gwaith prosiect er mwyn cwrdd ag anghenion cyflogwyr. Maent hwy fel rheol yn sicrhau llwybr i o leiaf un radd faglor anrhydedd.

Ar ddiwedd Gorffennaf, gwnaethom gais am gynigion ar gyfer graddau sylfaen rhan-amser newydd a gâi eu cyflwyno drwy'r partneriaethau rhanbarthol addysg uwch newydd, gyda ffocws clir ar weithio'n agos â chyflogwyr ac uwchraddio sgiliau'r gweithlu. Mae £7.64 miliwn ar gael ar gyfer y datblygiadau hyn a fydd yn helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ac i wneud addysg uwch yn fwy fforddiadwy i amrywiaeth ehangach o fyfyrwyr.

➔ Cylchlythyr Graddau Sylfaen

Rheoli'r nifer o israddedigion amser-llawn

Nid oes terfyn recriwtio uchaf pendant ar hyn o bryd ar gyfer is-raddedigion amser llawn ym mhifysgolion Cymru. Er ein bod ni'n cyfyngu ein cyllid ar gyfer lleoedd israddedig amser-llawn i fyfyrwyr cartref ac UE, gall sefydliadau, o fewn rheswm, barhau i recriwtio myfyrwyr ychwanegol os dymunant ar sail 'ffioedd yn unig'. Yn yr achosion hyn mae'r myfyriwr yn talu'r ffioedd ond nid yw CCAUC yn darparu arian ychwanegol ar gyfer y lle.

Ond gall recriwtio myfyrwyr amser-llawn ychwanegol uwchben y lefelau a gyllidir gan CCAUC arwain at gostau ychwanegol i'r cyhoedd yn nhermau ffioedd dysgu a

grantiau cynnal. Yn ei ddatganiad ar 14 Gorffennaf i'r Cynulliad Cenedlaethol, dywedodd y Gweinidog Addysg y byddai pob myfyriwr israddedig amser-llawn a gâi ei recriwtio o 2010/11 yn rhoi pwysau ychwanegol o tua £9,500 y flwyddyn mewn grantiau a benthyciadau ar gyllidebau cyllid myfyrwyr.

Oherwydd y cynnydd parhaus yn nifer y ceisiadau, dywedodd y Gweinidog fod yr amser wedi dod i reoli gwariant ym maes cyllid myfyrwyr mewn ffordd a oedd yn gynaliadwy ac nad oedd yn cael ei pheryglu gan dwf heb ei gynllunio yn nifer y myfyrwyr. Nododd fod cyfyngiadau eisoes ar niferoedd myfyrwyr yn nhair gwlad arall y DU. Gan ailadrodd yr hyn yr oedd wedi'i ddweud yn llythyr cylch gwaith 2010 Llywodraeth y Cynulliad i CCAUC, cadarnhaodd ei fod am i ni ddatblygu trefniadau i gyfyngu ar nifer yr israddedigion yng Nghymru o'r flwyddyn academaidd 2011/12.

Cyhoeddodd CCAUC ddogfen ymgynghori ar 22 Gorffennaf i geisio barn prifysgolion a cholegau ar yr egwyddorion yr ydym yn cynnig eu cymhwyso er mwyn rheoli'r nifer o israddedigion amser-llawn o'r flwyddyn academaidd 2011/12. Rydym wedi eu gwahodd i ymateb erbyn 2 Medi 2010

➔ Ymgynghoriad ar yr egwyddorion ar gyfer rheoli'r nifer o israddedigion amser-llawn o 2011/12

Cyllid ar gyfer gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)

Rydym yn annog cynnydd yn lleoedd prifysgol mewn pynciau gwyddonol o'r flwyddyn academaidd 2010/11 ymlaen a chefnogi cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i adfywio'r economi.

Rydym wedi gwahodd prifysgolion yng Nghymru i newid rhai o'u lleoedd presennol i fyfyrwyr yn lleoedd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), yn dilyn galwadau taer gan gyflogwyr am fwy o raddedigion yn y pynciau hyn. Yna byddwn yn rhoi rhagor o arian i brifysgolion i flaenoriaethu recriwtio yn y pynciau hyn.

➔ Datganiad i'r wasg: Hybu'r economi gwybodaeth yng Nghymru

➔ Cylchlythyr W10/25HE: Ymarfer Ailddosbarthu 2010/11

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Awst 2010

Llwyddiant ym myd busnes i brifysgolion Cymru

Yn 2008/09, cynhyrchodd prifysgolion Cymru, sy'n darparu 5% o addysg uwch y DU, 10% o'r holl fusnesau newydd a ddechreuwyd gan raddedigion y DU a thros 12% o drosiant (tuag £16.5 miliwn) yr holl gwmnïau gweithredol a ddechreuwyd gan raddedigion y DU.

Mae arolwg diweddaraf y DU (arolwg HE-BCI) ar sut mae sefydliadau addysg uwch yn gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes yn dangos bod prifysgolion yng Nghymru yn helpu cwmnïau a'r economi i ddod drwy amserau ansicr a gosod sylfeini cadarn at y dyfodol.

➔ Datganiad i'r wasg: canlyniadau'r nawfed Arolwg *Rhyngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned (HE-BCI)*

Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FRY/REF) yw'r system newydd ar gyfer asesu ansawdd ymchwil yn sefydliadau addysg uwch y DU.

Cadarnhwyd yr amserlen ar gyfer yr ymarfer DU-eang ym mis Gorffennaf. Bydd yr asesiad bellach yn cael ei wneud yn 2014 a'i ddefnyddio'n sylfaen ar gyfer cyllido o'r flwyddyn academaidd 2015/16, flwyddyn yn ddiweddarach nag a ragwelwyd.

Bydd y newid hwn yn rhoi mwy o amser i'r cyrff cyllido ddatblygu elfen effaith newydd y Fframwaith. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd mewn ymatebion sefydliadau AU i ymgynghoriadau a gynhaliwyd yng Nghymru ac mewn mannau eraill, lle'r oedd y mwyafrif llethol o blaid oedi am flwyddyn.

➔ Cyhoeddiad gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (DBIS)

Hefyd, mae'r cyrff cyllido yn ddiweddar wedi cyhoeddi'r Unedau Asesu a'r strwythur paneli ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Yn ogystal, mae'r cyrff cyllido:

- wedi gwahodd ceisiadau gan unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn gadeiryddion is-baneli (dyddiad cau 17 Medi).

- wedi gwahodd cymdeithasau a chyrff sydd â diddordeb mewn ymchwil – heblaw am sefydliadau addysg uwch – i enwebu ymgeiswyr i ddod yn aelodau o'r paneli (dyddiad cau 8 Hydref).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghylchlythyr 01/2010 yn www.ref.ac.uk.

Y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol

O 2010/11, bydd Cymru'n cymryd rhan yn llinyn unigol y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol (NTFS). Bydd y cynllun yn cael ei ehangu i 55 cymrawd y flwyddyn, y mae dyfarniad o £10,000 ar gael ar gyfer pob un, a bydd ar agor i enwebeion o Gymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr ar gyfer y dyfarniadau a gyhoeddwyd yn 2010/11. Bydd manylion pellach yn cael eu dosbarthu gan yr Academi Addysg Uwch, sy'n gweithredu'r cynllun.

Yn gryno

- Llongyfarchiadau i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd am ennill un o'r gwobrau Gŵn Gwyrdd blynyddol yn y categori Mentrau Myfyrwyr.
- Fel llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, mae CCAUC wedi ymuno â rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd sector cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â'r nod o hybu cydweithio ac arloesedd a fydd yn arwain at welliannau ac arbed costau.
- Mae ffigurau diweddar Consortiwm Rhyngwladol Cymru (WIC) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009/10 yn dangos bod 11,374 o fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru – cynnydd o bron 19.5% ers 2008/09.

Cyhoeddiadau diweddar

W10/24HE: Cynllun Hepgor Ffioedd Israddedigion Rhan-Amser CCAUC

Mae hwn yn disgrifio cynllun hepgor ffioedd israddedigion rhan-amser CCAUC ar gyfer 2010/11 ac yn nodi'r meini prawf y bydd angen i fyfyrwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer hepgor ffioedd o dan y cynllun hwn. Yn 2010/11 gall

myfyrwyr cymwys sy'n derbyn Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau hawlio hyd at £1,200 tuag at eu ffioedd i astudio ar gyfer cymhwyster uwch rhan-amser.

W10/23HE: Y gronfa strategaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon: dyraniadau 2010/11

W10/22HE: Y strategaeth dysgu ac addysgu: dyraniadau 2010/11

W10/21HE: Cais am ymatebion sefydliadau i Strategaeth Gorfforaethol 2010-11 hyd 2012-13 CCAUC

Mae hwn yn gwahodd sefydliadau addysg uwch Cymru i gyflwyno copïau o adroddiadau ar gynnydd yn erbyn eu cynlluniau strategol presennol, a hefyd i ymateb i Strategaeth Gorfforaethol 2010-11 hyd 2012-13 CCAUC.

W10/17HE: Dadansoddiad o sefyllfa ariannol y sector AU 2008/09

Mae hwn yn cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad iechyd ariannol ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru.